# Hebryngwr y BBC – Telerau Arbennig

Sylwch fod y fersiwn Saesneg o'r telerau hyn ar gael isod.

Os bydd y telerau ac amodau cyffredinol yn gwrthdaro â'r telerau arbennig hyn, y telerau arbennig fydd drechaf.

I gael rhagor o wybodaeth am Hebryngwyr, ewch i - Chaperones

| | |
|---|---|
| **1 Diffiniadau** | 1.1 Mae "Hebryngwr" yn golygu person dros 18 oed sydd wedi'i gymeradwyo o dan Reoliad 15 o Reoliadau Plant (Perfformiad a Gweithgareddau) (Lloegr) 2014 i fod â gofal a rheolaeth dros blentyn er mwyn diogelu, cefnogi a hyrwyddo llesiant y plentyn tra bydd yn cymryd rhan mewn perfformiad, ymarfer, gweithgaredd neu'n byw oddi cartref yn ystod cyfnod y Drwydded.<br>1.2 Mae hebryngwyr yn gweithredu in loco parentis ac yn ymarfer y gofal y gellid disgwyl yn rhesymol i riant da ei roi i blentyn.<br>1.3 Mae'r "Drwydded" yn golygu'r awdurdodiad cyfreithiol sydd gan hebryngwr i oruchwylio plentyn tra bydd yn cymryd rhan mewn perfformiad, ymarfer, gweithgaredd neu'n byw oddi cartref. |
| **2 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Hebryngwyr** | 2.1 Fel Hebryngwr, eich prif gyfrifoldeb yw sicrhau lles a goruchwyliaeth y plentyn/plant yn eich gofal Chi<br>2.2 Rhaid i Chi fod yn ymwybodol o ofynion deddfwriaethol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Reoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Lloegr) 2014 neu Reoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Yr Alban) 2014<br>2.3 Rhaid i Chi fod yn gyfarwydd â Pholisi Diogelu'r BBC a Chanllawiau Golygyddol y BBC. Maent ar gael yma:<br>Polisi Diogelu'r BBC<br>Canllawiau Golygyddol y BBC 2025<br>2.4 Rhaid i Chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi cwblhau cwrs yr NSPCC ar-lein, 'Amddiffyn Plant yn y Diwydiant Adloniant' (o fewn 3 blynedd)<br>2.5 Rhaid i Chi sicrhau bod y plentyn yn cael cyfleoedd addas ar gyfer |

gweithgareddau hamdden a'i fod yn cael ei amddiffyn rhag pwysau, straen, tywydd garw ac unrhyw amodau eraill sy'n debygol o'i niweidio.

2.6 Rhaid i Chi gadw mewn cysylltiad â'ch Awdurdod Trwyddedu Chi (os yw'n berthnasol), Awdurdod Trwyddedu'r plentyn/plant, Awdurdod Lleol yr ardal y mae'r plentyn yn perfformio ynddi, asiant y plentyn (os yw'n berthnasol) a Rhiant/Gwarcheidwad Cyfreithiol y plentyn/plant.

**3 Trwyddedau Hebryngwyr a Phlant ac Aelodaeth y Cynllun PVG**

3.1 Un o amodau Eich cyflogaeth fel Hebryngwr yw bod gennych Chi un o'r pethau canlynol:

3.2 Os ydych Chi'n Hebryngwr yng Nghymru, yn Lloegr neu yng Ngogledd Iwerddon, Trwydded Hebryngwr ddilys a gyhoeddwyd gan eich Awdurdod Lleol Chi, lle bydd gofyn i Chi ddarparu copi ohoni i'r BBC ar gais.

3.3 Os ydych Chi'n Hebryngwr yn yr Alban, aelodaeth o'r Cynllun PVG (Amddiffyn Grwpiau Agored i Niwed), a bydd gofyn i Chi ddarparu tystiolaeth o'r naill neu'r llall i'r BBC ar gais.

3.4 Os ydych Chi wedi gwarantu bod gennych Chi Drwydded Hebryngwr ddilys, Gwiriad DBS manwl cyfredol (gyda Rhestr Gwahardd ar gyfer plant) gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, neu eich bod Chi'n aelod o'r Cynllun PVG (fel y bo'n briodol), rydych Chi'n cytuno i gadarnhau unrhyw newidiadau i'r swydd honno yn ystod Eich cyflogaeth â'r BBC, neu cyn derbyn unrhyw waith pellach.

3.5 Rydych Chi'n cytuno i sicrhau Eich bod yn gwbl gyfarwydd â thelerau Trwydded y plentyn rydych Chi'n ei hebrwng, ac yn gyfarwydd â'r trwyddedau a roddir gan yr Awdurdodau Lleol, ac fel o fewn Eich gallu Chi dylech sicrhau bod unrhyw rai o amodau'r Trwyddedau'n cael eu bodloni.

3.6 Rydych Chi'n gwarantu bod gan y plentyn/plant rydych Chi'n ei/eu hebrwng drwydded ddilys a byddwch

yn darparu'r drwydded honno i'r BBC ar gais